

Datganiad Preifatrwydd Grŵp Gofal Treherne

Mae'r datganiad preifatrwydd hwn yn amlinellu sut mae Grŵp Gofal Treherne yn defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth bersonol ac yn egluro pam a sut yr ydym ni'n defnyddio'r wybodaeth hon, gyda phwy y gallwn ni ei rhannu a'ch hawliau dros eich gwybodaeth eich hun.

Rydym ni'n ymrwymo'n llawn i ddiogelu preifatrwydd data personol a dim ond yn unol â'r datganiad preifatrwydd hwn y byddwn ni'n defnyddio unrhyw wybodaeth sy'n gallu adnabod defnyddwyr.

Mae gan Grŵp Gofal Treherne ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 sy'n darparu'r fframwaith sy'n byw ochr yn ochr â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (EU 2016/679). Daeth y ddau i rym ar 25 Mai 2018.

Mae Grŵp Gofal Treherne yn brosesydd cyfreithiol o'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu a'i phrosesu i ddarparu gwybodaeth i chi am ein gwasanaethau. Y sail gyfreithiol dros hyn yw buddiant a chaniatâd cyfreithlon. Darllenwch y polisi preifatrwydd ar wahân yn amlinellu'r sail gyfreithiol o ran Ceisiadau Swydd a gynhwysir ar dudalen 8 y pecyn ymgeisio.

Y mathau o wybodaeth bersonol rydym ni'n eu casglu ac yn eu defnyddio ar ein gwefan:

- Cwestiynau, ymholiadau neu adborth rydych chi'n eu gadael, gan gynnwys eich cyfeiriad e-bost.
- Os ydych chi'n llenwi un o'n ffurflenni e-bost, byddwn yn casglu eich cyfeiriad e-bost a data personol arall fel eich enw a'ch rhif ffôn.
- Eich Cyfeiriad IP (Protocol Rhynggrwyd) a manylion pa fersiwn o'r porwr a ddefnyddiwyd gennych.
- Gwybodaeth am y ffordd yr ydych chi'n defnyddio'r wefan, ac yn defnyddio cwcis. Darllenwch ein Polisi Cwcis.
- Gwybodaeth o becynnau cais rydych chi wedi'u llenwi – cymerwch gip ar y polisi preifatrwydd ar wahân ar dudalen 8 y pecyn ymgeisio.

Pam ydym ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol?

Dim ond data sy'n ein helpu ni i gyfathrebu â chi rydym ni'n ei gasglu. Ni fyddwn ni fyth yn gwerthu, masnachu na rhentu eich gwybodaeth bersonol i eraill.

Sut allwch chi gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol a'i rheoli?

Bydden ni'n eich darparu chi â'r wybodaeth bersonol rydym ni'n ei chadw pe baech yn gwneud cais am hynny, neu i rywun arall os ydych chi'n rhoi caniatâd iddynt ei chael. Gallwch hefyd wneud dewisiadau o ran y ffordd y mae Grŵp Gofal Treherne yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth. Gallwch ofyn i ni ddileu, cywiro neu roi'r gorau i ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi. Os na allwn ni wneud hynny, byddwn ni bob tro yn egluro pam.

Sut ydym ni'n cadw eich data yn ddiogel?

Rydym ni'n storio eich data ar weinyddwyr diogel. Pecynnau cais – byddwn yn cadw eich gwybodaeth electronig yn ddiogel drwy ei diogelu â mesurau electronig a thrwy reoli a monitro pwy sydd â mynediad ati. Byddwn ni'n cadw unrhyw ddogfennau papur dan glo yn ddiogel. Mae ein holl staff wedi'u hyfforddi i'r safon gyfredol ar Ddiogelwch Gwybodaeth a Diogelu Data.

Am ba hyd y byddwch chi'n cadw fy nata?

Byddwn ni'n cadw eich data tan i chi ofyn i ni ei ddileu neu roi'r gorau i'w brosesu, neu hyd nes nad oes angen i ni gyfathrebu â chi mwyach. Dim ond am chwe blynedd y bydd ceisiadau swydd aflwyddiannus yn cael eu cadw ar ffeil ar gyfer swyddi yn y dyfodol, a gyda'ch caniatâd chi. Ar ddiwedd y cyfnod hwn byddwn yn dileu neu ddinistrio eich data oni bai eich bod eisoes wedi tynnu eich caniatâd yn ôl. Os felly, bydd yn cael ei ddileu a'i ddinistrio ar ôl i chi dynnu eich caniatâd yn ôl. Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd eich data yn cael ei gadw a'i drosglwyddo i'r systemau rydym ni'n eu defnyddio ar gyfer staff. Mae gennym ni bolisi preifatrwydd ar wahân ar gyfer staff, a byddwn ni'n darparu hwn i chi.

Cysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw ymholiad, neu os hoffech fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon, defnyddiwch ein ffurflen gysylltu â chyfeirio eich ymholiad at ein Swyddog Diogelu Data.

Cyhoeddwyd y datganiad preifatrwydd hwn ar 13 Mawrth 2019